# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 19/01/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Gwasanaethau Eirioli

**C11 Paul Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau eirioli yng Nghymru? OAQ(3)2534(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Cafodd model ar gyfer cyflwyno gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc ei ddatblygu gan adeiladu ar arferion gorau i ddiwallu anghenion yng Nghymru. Mae'n cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn, gan sicrhau bod plant yn ganolog i benderfyniadau sy'n cael effaith arnynt.

### Y Portffolio Treftadaeth

**C12 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y portffolio treftadaeth? OAQ(3)2533(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi ymrwymo i gyflawni ymrwymiadau 'Cymru'n Un' o ran treftadaeth, gan gynnwys sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol i'r Gymraeg, gyda'r bwriad o gyflwyno Mesur arfaethedig ar gyfer y Gymraeg, hybu mwy o weithgarwch corfforol ar gyfer iechyd gwell, cynyddu twristiaeth drwy wneud y gorau o werth economaidd ein treftadaeth, a moderneiddio'r rhwydwaith llyfrgelloedd cyhoeddus.

### Blaenoriaethau

**C13 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2010? OAQ(3)2543(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod 2010, byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yng nghytundeb 'Cymru'n Un', a'n rhaglen ddeddfwriaethol, yn gwneud penderfyniadau anodd ar wariant, ac yn gosod y sylfeini ar gyfer adferiad economaidd cynaliadwy. Byddwn hefyd yn ceisio ennill mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

### Coleg Ffederal

**C14 Nerys Evans:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sefydlu coleg ffederal yng Nghymru? OAQ(3)2525(FM)

**Y Prif Weinidog**: Yr wyf yn cefnogi'n llawn y model cydweithredol ar gyfer y coleg ffederal a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau blaenorol fis Tachwedd diwethaf, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer addysg uwch. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gafodd y dasg o fwrw ymlaen â hyn drwy gydweithredu â sector addysg uwch Cymru, ac o fonitro targedau y cytunwyd arnynt yn erbyn cyllid Llywodraeth y Cynulliad.

## Diweithdra

**C15 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â diweithdra yng Nghymru? OAQ(3)2544(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi nifer o fesurau yn eu lle i fynd i’r afael â diweithdra yng Nghymru, gan gynnwys rhaglenni ReAct a ProAct, GO Wales, llwybrau at brentisiaethau, recriwtiaid newydd a chyllid ychwanegol ar gyfer adeiladu sgiliau. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod eu mesurau i ddelio â’r dirwasgiad, gan gynnwys mwy o gymorth ariannol ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am dros chwe mis, y gwarant person ifanc a chronfa Swyddi’r Dyfodol, yn gweithio’n llwyddiannus yng Nghymru. Yn ddiweddar, yr ydym hefyd wedi cytuno ar fframwaith ar gyfer y farchnad lafur gyda’r adran, sydd wedi’i amlinellu yng nghytundeb ‘Cymru’n Un’. Bydd hwn yn paratoi’r ffordd ar gyfer cydweithio’n agosach, ac er mwyn integreiddio’r cymorth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau yn well.